# Adroddiad Arolygu

**Cylch Meithrin Pontarddulais**

**Eglwys Gymunedol Bont Elim**
**Heol Alltiago**
**Pontarddulais**
**Abertawe**
**SA4 8HU**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

Adroddiad terfynol heb ei
eddi



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

29/11/2022

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddidâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The*

*Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i:*
*psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Cylch Meithrin Pontarddulais

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Person Cofrestredig | Nigel Beynon |
| Lleoedd cofrestredig | 19 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 24 Mai 2022 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

erfynol heb ei
yhoeddi

## Crynodeb

Roedd hwn yn arolygiad â phwyslais penodol, ac ar yr achlysur hwn, ni wnaethom ystyried themâu yr amgylchedd, gofal a datblygiad ac arwain a rheoli yn fanwl.

Mae'r plant yn fodlon eu byd, wedi setlo ac yn mwynhau treulio amser yng Nghylch Meithrin Pontarddulais. Maent yn cael llawer o gyfleoedd i ddilyn eu diddordebau eu hunain ac i wneud dewisiadau. Mae'r rhyngweithio rhwng y plant a'r staff o'u cwmpas yn gadarnhaol ac maent yn gwybod y byddant yn gwrando arnynt. Maent yn mwynhau amrywiaeth o gyfleoedd i chwarae, dysgu a datblygu.

Mae'r staff yn deall eu rôl, yn hyrwyddo arferion hylendid da ac yn cefnogi llesiant y plant. Maent yn defnyddio strategaethau rheoli ymddygiad cadarnhaol gyda'r plant. Mae'r staff yn gweithio'n gyson i ddarparu amgylchedd chwarae a dysgu cadarnhaol i'r plant.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi gwneud newidiadau effeithiol i'r gwasanaeth. Maent wedi gwella eu prosesau ac wedi darparu tystiolaeth i ddangos eu bod wedi bodloni'r ddau hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Llesiant

Caiff y plant rai cyfleoedd i wneud dewisiadau. Maent yn gwneud penderfyniadau ynghylch ble yr hoffent chwarae, pa eitemau i chwarae â nhw a phryd maent am symud o un gweithgaredd i'r llall. Er enghraifft, wedi i'r plant orffen eu byrbryd, roeddent yn gadael y bwrdd er mwyn mynd i chwarae.

Mae'r plant yn fodlon eu byd ac yn mynegi mwynhad. Maent yn hapus, wedi setlo ac yn mynegi eu hunain yn hyderus. Mae'r plant yn teimlo eu bod yn perthyn. Maent yn gyfarwydd â'r holl oedolion sy'n gofalu amdanynt ac yn mynd atynt i gael tawelwch meddwl ac i rannu eu chwarae a'u dysgu. Er enghraifft, eisteddodd y plant gyda'r staff yn hapus a mynd atynt i ddangos yr hyn roeddent wedi'i wneud wrth chwarae. Mae'r plant yn dechrau meithrin cyfeillgarwch ac yn gyfarwydd â threfn arferol y lleoliad. Ymunodd y plant â'r canu ar y mat gan wybod beth i'w wneud pan ddywedodd y staff ei bod yn "*amser tacluso*".

Mae'r rhyngweithio rhwng y plant a'r oedolion yn gadarnhaol. Mae'r plant yn clywed anogaeth gyson gan y staff ac maent yn dilyn eu cyfarwyddiadau a'u ceisiadau. Er enghraifft, gofynnodd y staff i blentyn roi'r botel yn ôl yn ei fag unwaith y byddai wedi gorffen yfed, ac roedd yn ddigon parod i wneud hynny. Mae'r plant yn cydweithredu ac mae'r plant ifanc yn dechrau rhannu â'i gilydd. Maent yn rhannu adnoddau â'i gilydd ac yn dangos diddordeb yn yr hyn y mae eu ffrindiau yn ei wneud.

Mae'r plant yn dangos diddordeb yn eu chwarae a'u dysgu. Maent yn cwblhau gweithgareddau a arweinir gan oedolion yn hapus yn ogystal â dilyn eu diddordebau eu hunain. Maent yn newid ac yn symud adnoddau i wahanol ardaloedd neu yn eu defnyddio mewn ffordd wahanol. Er enghraifft, defnyddiodd un plentyn yr addurniadau Nadolig fel rhan o'i chwarae byd bach Peppa Pinc a defnyddio'r cylchoedd a'r bagiau ffa i chwarae ei gêm ddychmygol ei hun.

Mae'r plant yn mwynhau dewis rhesymol o gyfleoedd priodol dan do, gan gynnwys chwarae corfforol, ieithyddol, creadigol a chymdeithasol. Maent yn cymryd rhan yn y gweithgareddau am gyfnod o amser sy'n briodol i'w hoedran, gyda rhai o'r plant yn canolbwyntio ar weithgareddau mwy heriol. Er enghraifft, treuliodd un plentyn gryn dipyn o amser yn ymarfer torri toes chwarae wedi i'r staff ddangos iddo beth i'w wneud gyda'r siswrn. Mae'r plant yn cael llawer o gyfleoedd i ddechrau eu chwarae eu hunain a dylanwadu ar eu tasgau a'u gweithgareddau am fod cydbwysedd da rhwng gweithgareddau a arweinir gan blant a'r rhai a arweinir gan oedolion.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Gofal a Datblygiad

Gan mai arolygiad â phwyslais penodol oedd hwn, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn.

Mae'r staff yn rhoi gweithdrefnau ar waith i hyrwyddo ffyrdd iach o fyw, gweithgareddau corfforol a diogelwch a llesiant personol. Maent yn dilyn arferion glanhau a hylendid cadarn, gan gynnwys sychu'r byrddau cyn byrbryd a dilyn arferion hylendid dwylo da ar ôl chwythu

eu trwynau. Mae'r staff yn gwbl ymwybodol o'r risgiau ac yn eu rheoli'n dda. Er enghraifft, wrth gerdded i fyny ac i lawr y grisiau ac wrth fynd o un ystafell i'r llall, mae'r staff yn sgwrsio â'r plant ac yn eu hatgoffa'n gyson i ddal y rheiliau ac i ddilyn ei gilydd. Maent yn sicrhau bod llesiant y plant yn cael ei hyrwyddo.

Mae'r rhan fwyaf o'r staff yn cefnogi'r plant i siarad neu fynegi eu hunain yn dda am eu bod yn cael ymateb cyson/yn rhyngweithio'n gyson. Maent yn defnyddio llawer o ddulliau atgyfnerthu, gan gynnwys 'da iawn', y defnydd o godi bawd, canmoliaeth unigol ac anogaeth gadarnhaol. Mae'r staff yn dangos diddordeb gwirioneddol yn yr hyn sydd gan y plant i'w ddweud, gan ymateb yn unol â hynny neu ofyn cwestiynau dilynol. Er enghraifft, gofynnodd plentyn am help i aelod o'r staff, ond roeddent eisoes yn helpu plentyn arall. Esboniodd yr aelod o'r staff, *"I am just helping this child, then I will help you, ok?"* Roedd y plentyn yn fodlon ar hyn ac arhosodd am help. Mae'r staff yn ymateb i ddulliau cyfathrebu dieiriau y plant ac yn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn gyson.

## Yr Amgylchedd

Gan mai arolygiad â phwyslais penodol oedd hwn, nid ydym wedi ystyried y thema hon.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Gan mai arolygiad â phwyslais penodol oedd hwn, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn

Mae gan dîm arwain Cylch Meithrin Pontarddulais ffocws pendant ac maent yn gweithio'n effeithiol i ddatblygu'r lleoliad a'i wella. Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad weledigaeth glir ac yn ei rhannu ag eraill. Ers yr arolygiad diwethaf, maent wedi gwneud gwelliannau cadarnhaol i'w harferion ac wedi dechrau rhoi'r awgrymiadau o'r arolygiad diwethaf ar waith. Er enghraifft, mae ganddynt gofnod clir o'r cyfnodau y mae'r staff yn gwarchod y plant a phan maent ar eu hegwyl neu'n cludo'r plant i'r ysgol ac oddi yno erbyn hyn.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn dilyn proses recriwtio ddiogel er mwyn diogelu'r plant. Mae ganddynt systemau boddhaol ar waith i gwblhau gwiriadau ynglŷn ag addasrwydd aelodau o'r staff a gwirfoddolwyr. Maent yn sicrhau y caiff tystiolaeth ei chadw i'w harolygu. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi datblygu proses oruchwylio addas ac wedi ei rhoi ar waith. Dywedodd y staff eu bod yn teimlo'n hapus a'u bod yn cael eu cefnogi gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad. Credant fod y broses oruchwylio yn ddefnyddiol gan eu bod yn gallu codi materion a thrafod eu hanghenion datblygu'n broffesiynol.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Argymhellion i gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 28 | Roedd gwiriadau addasrwydd staff yn anghyflawn. Sicrhau bod yr holl dystiolaeth o wiriadau addasrwydd cyn-cyflogi yn cael eu cwblhau ac ar gael i'w harolygu. | Cyflawnwyd |
| 29 | Nid oedd unrhyw dystiolaeth o sesiynau goruchwylio un i un gyda'r staff. Sicrhau y caiff sesiynau goruchwylio eu cynnal yn rheolaidd gyda phob aelod o staff a'u bod yn cael eu cofnodi. | Cyflawnwyd |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 20 | Nid yw'r darparwr yn cydymffurfio â'r rheoliad gan nad yw'n sicrhau y caiff preifatrwydd y plant ei barchu bob amser. Sicrhau y caiff preifatrwydd ac urddas y plant eu parchu yn y lleoliad. | Adolygwyd |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

**Dyddiad Cyhoeddi** 02/02/2023

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi